## ATODLEN 1

## TANWYDDAU AWDURDODEDIG

**4** Brics glo Black Diamond Gem, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, North East Lincolnshire—

(a) sy'n cynnwys llwch glo caled (sef 20 i 30 y cant o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef 40 i 45 y cant o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef 12 i 22 y cant o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr triagl ac asid fforsfforig (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thriniaeth wres ar ryw 300°C,

(c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd wedi'u marcio â dwy linell gyfochrog sydd wedi'u hindentio ac yn rhedeg yn lledredol o amgylch y fricsen ac sy'n pwyso 160 gram ar gyfartaledd; ac

(ch) nad ydynt yn cynnwys mwy na 1.5 y cant o sylffwr o'r cyfanswm pwysau.